

Cynllun Iaith Gymraeg Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

Wedi ei baratoi o dan Ddeddf yr
Iaith Gymraeg 1993

Mawrth 2012



Cynnwys

| Adran | Teitl | Tudalen |
|---|--|---|
| Cyflwyniad | | 5 |
| Cefndir y sefydliad | | 6 |
| Cwmpas y cynllun | | |
| Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau | Polisiau, deddfwriaeth a mentrau Cyflwyno gwasanaethau Ein swyddogaethau rheoliadol a gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni ar ein rhan gan drydydd barti Safonau ansawdd Dyfarnu grantiau a benthyciadau | 7 8 |
| Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg | Gohebiaeth Llythyrau i gyfleu penderfyniadau Cysylltiadau dros y ffôn Cyfarfodydd cyhoeddus Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru | 8 9 9 |
| Ein delwedd gyhoeddus | Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion Cyhoeddiadau Gwefannau Ffurflenni a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig Ein hunaniaeth gorfforaethol Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff | 9 10 11 11 |

| | | |
|--------------------------------|---|----|
| | Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau | 12 |
| Rhoi'r cynllun ar waith | Staffio a hyfforddiant iaith | 12 |
| | Recriwtio staff | |
| | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| | Gweithio mewn partneriaeth | 13 |
| | Trefniadau mewnol | |
| | Monitro | |
| | Adolygu a diwygio'r cynllun | 14 |
| | Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella | |
| Atodiad A | Y Cynllun Gweithredu – y prif dargedau wrth roi Cynllun Iaith Gymraeg DECC ar waith | 16 |

Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y byddwn yn darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Cymeradwyodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg Gynllun Iaith Gymraeg DECC ym mis 29 Mawrth 2012. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y bydd DECC yn gweithredu'r egwyddor a sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r fath raddau ag y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Yng nghyd-destun y cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion. Mae hyn yn cwmpasu'r cyhoedd yn gyffredinol, neu adrannau o'r cyhoedd sy'n gweithredu mewn cyd-destun preifat. Fodd bynnag, nid yw'n cwmpasu pobl sy'n gweithredu yn rhinwedd swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus yn dod o fewn ystyr y gair 'cyhoedd' wrth gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 – gan ystyried y canllawiau a gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth y cynllun i rym ar 29 Mawrth 2012. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd ar gael trwy fynd i: www.byig-wlb.org.uk

Cefndir y sefydliad

1. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn gyfrifol am bolisi ynni'r DU ac am fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fyd-eang ar ran y DU. Ein nod yw helpu i greu DU carbon isel, a hynny wrth ofalu bod gennym gyflenwadau ynni diogel, sicrhau tegwch i gwsmeriaid ynni, a chreu cyfleoedd economaidd newydd ar gyfer y DU.
2. Mae DECC yn sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithredu fel rhanddeiliad effeithiol a deallus mewn perthynas â'r materion pwysig hyn trwy ymgysylltu mewn ffordd ddofn ac effeithiol â'r agendau ynni a newid hinsawdd byd-eang ar draws y meysydd polisi critigol, a helpu sectorau busnes a chyhoeddus, a chymdeithas sifil y DU, i symud i gyfeiriad economi carbon isel.
3. Mae DECC wedi mabwysiadu pedair blaenoriaeth er mwyn helpu i hoelio'i ymdrechion ar greu dyfodol carbon isel, sef:
 - Lleihau defnydd o ynni gan aelwydydd a busnesau trwy'r Fargen Werdd, a helpu i amddiffyn y bobl sy'n wynebu tlodi tanwydd.
 - Cyflawni ynni diogel wrth baratoi ar gyfer dyfodol ynni carbon. Diwygio'r farchnad ynni a gweithio ar lefel ryngwladol er mwyn sicrhau bod gan y DU system ynni sy'n amrywiol, yn sicr, yn ddiogel ac yn fforddiadwy, a chymell buddsoddi mewn technegau carbon isel a'u defnyddio.
 - Sbarduno camau uchelgeisiol mewn perthynas â newid hinsawdd yn y wlad yma a thramor. Gweithio er mwyn sicrhau gweithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, a gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni cyllidebau carbon y DU mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.
 - Cadw rheolaeth ar ein hetifeddiaeth ynni mewn ffordd gyfrifol a chost-effeithiol. Rheoli ein rhwymedigaethau niwclear, glo a mathau eraill o ynni mewn ffordd sy'n amddiffyn y cyhoedd ac yn sicrhau gwerth am arian.

Cwmpas y cynllun

4. Mae Cynllun Iaith Gymraeg DECC yn cwmpasu swyddogaethau pencadlys DECC, ac mae'r adran yn ymrwmo i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar faterion sy'n berthnasol i Ddeddf yr Iaith Gymraeg.
5. Mae cyfrifoldeb ar DECC i roi ystyriaeth i gynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig lle gallai'r polisi neu'r mesur y mae DECC yn ei gyflwyno gael effaith sylweddol ar Gymru. Bydd DECC yn sicrhau y caniateir digon o amser er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth o ran unrhyw ddimensiwn Cymraeg sy'n angenrheidiol.
6. Bydd DECC yn defnyddio ei ddylanwad i hyrwyddo ymwybyddiaeth am anghenion siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a bydd yn annog y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol perthnasol i fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf. Dyma Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol DECC adeg cyhoeddi'r cynllun:

- Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil
- Yr Awdurdod Glo
- Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd
- Y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol
- Y Gweithgor Ymgynghorol ar Dlodi Tanwydd
- Y Bwrdd Sicrwydd ar Ariannu Rhwymedigaethau Niwclear
- Y Gronfa Rwymedigaethau Niwclear

Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu Asiantaethau Gweithredol am nad oes unrhyw asiantaethau o'r fath o dan adain DECC ar hyn o bryd.

Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

7. Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn cyd-fynd â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg, a lle bo'n briodol, byddant yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd pob dydd.
8. Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth arall dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn. Byddwn yn sicrhau hefyd bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd dan nawdd yr Adran yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Asesu Effeithiau wrth bwysu a mesur effaith polisiâu a mentrau newydd ar yr iaith Gymraeg. Mae'r canllawiau cyffredinol hyn ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet <<http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/guide-making-legislation>>.

Cyflwyno gwasanaethau

9. Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol ac yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pryd y mae'r gwasanaethau hyn ar gael. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gyrchu ein gwasanaethau.

Ein swyddogaethau rheoliadol a gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni ar ein rhan gan drydydd barti

10. Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn ag unrhyw drydydd barti yn gyson ag unrhyw rannau perthnasol o'r cynllun hwn pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan, trwyddedau a ddyrennir a mathau eraill o ganiatâd a roddir.

Safonau ansawdd

11. Pan ddarperir gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg, bydd safon y gwasanaethau yn y ddwy iaith yr un mor uchel â'i gilydd a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

Caiff yr ymrwymiad hwn ei ddatgan yn gyhoeddus yn yr adroddiad Adrannol, ar wefan Cyhoeddiadau DECC ac mewn deunyddiau eraill fel y bo'n briodol. Caiff yr ymroddiad hwn ei ddatgan ar wefan DECC hefyd. Gellir chwilio trwy wefan Cyhoeddiadau DECC a gosodir cyfarwyddiadau ar sut i adnabod y dogfennau sydd ar gael yn Gymraeg ar adran Cwestiynau Cyffredin y wefan Gymraeg.

Dyfarnu grantiau a benthyciadau

12. Pan fyddwn yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn cynnwys telerau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Wrth wneud hyn, byddwn yn cadw canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau mewn golwg.

Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

13. Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:
14. Pan fydd Uned Gohebiaeth Weinidogol DECC yn cychwyn gohebiaeth ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn uniaith Gymraeg neu Saesneg. Pan fo aelod o'r cyhoedd yng Nghymru yn ysgrifennu atom yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, byddwn yn anfon ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).
15. Bydd ein Huned Gohebiaeth Weinidogol yn cadw cofnod o'r bobl sydd am ohebu â ni yn Gymraeg. Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un fath â'r amser ar gyfer ateb llythyrau Saesneg, sef 15 diwrnod ar gyfer ohebiaeth weinidogol ac 20 diwrnod gwaith yn achos ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
16. Os oes angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd. Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog hefyd lle bo modd.
17. Bydd hyn yn berthnasol i ohebiaeth trwy e-bost yn ogystal â gohebiaeth Gymraeg ar ffurf copi caled.

Llythyrau i gyfleu penderfyniadau

18. Os bwriedir i lythyr am benderfyniad gyfleu polisi i gynulleidfa ehangach o lawer na'r rhai sy'n union gysylltiedig â'r ymholiad, neu unrhyw weithdrefn statudol arall, byddwn yn ystyried a ddylid ei drin fel cyhoeddiad yn ystyr y cynllun hwn.

Cysylltiadau dros y ffôn

19. Ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal sgysiau yn Gymraeg dros y ffôn oherwydd ein lleoliad. Fodd bynnag, pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn neu gyfleusterau tebyg er mwyn darparu gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y

Gymraeg. Caiff y gwasanaeth hwn ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd cyhoeddus

20. Bydd DECC yn sicrhau bod croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru (h.y. gwrandawiadau ffurfiol, ymholiadau, achosion cyfreithiol ac achlysuron swyddogol tebyg) gyfrannu yn Gymraeg, a'u bod yn cael gwneud hynny. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n hysbysebu achlysuron yng Nghymru yn ddwyieithog, ac fel rheol byddant yn gwahodd y bobl sy'n dymuno siarad Cymraeg i roi gwybod i'r person sy'n trefnu'r achlysur ymlaen llaw fel bod modd trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.
21. Ein harfer safonol fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn Gymraeg a Saesneg – a chyhoeddi'r adroddiadau neu'r papurau a gynhyrchir yn sgil y cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg, yn unol ag ymrwymadau'r cynllun hwn o ran cyhoeddi gwybodaeth.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd

22. Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

23. Pan fyddwn yn cyflawni arolygon cyhoeddus yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob agwedd ar ein cysylltiadau â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn gofyn i'r ymatebwyr a ydynt am ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.
24. Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu achlysuron tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen am eu darparu yn Gymraeg.
25. Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Ein delwedd gyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion

26. Lle bo'n berthnasol i DECC ymgyrchu yng Nghymru, byddwn yn cynhyrchu ein holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn yr un mor hawdd cael gafael arnynt ac ar gael yr un pryd â'i gilydd.
27. Bydd unrhyw hysbysebion a osodir mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg)

cyfrwng Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru'n bennaf neu yn unig, yn ddwyieithog, neu yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos yr un pryd) a byddant yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd.

28. Byddwn yn darlledu unrhyw hysbysebion teledu, sinema a radio sy'n targedu Cymru yn benodol yn Gymraeg a Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglennu Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni cyfrwng Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg. Ein harfer safonol fydd osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg na dybio hysbysebion i'r Gymraeg.
29. Bydd unrhyw linellau ffôn a dulliau eraill o ymateb i ymgyrchoedd sy'n targedu Cymru yn ddwyieithog, neu byddant yn cynnig gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.
30. Lle bo ymgyrch benodol yn defnyddio amrywiaeth o wahanol gyfryngau, mae DECC yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r cyfrwng neu'r cyfryngau y gwêl yn fwyaf cost-ffeithiol wrth gyflwyno neges yr ymgyrch i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddiadau

31. Byddwn yn cyhoeddi cyhoeddiadau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn Gymraeg yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw beth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru neu ardal yng Nghymru ac sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn Gymraeg yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd hefyd. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Dogfennau polisi ac ymgynghori sy'n ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ar led
 - Pamffledi a thafleuni sy'n targedu'r cyhoedd ar led
 - Ffurflenni a deunyddiau esboniadol ar gyfer y cyhoedd ar led
32. Bydd swyddogion DECC yn ystyried pob achos yn unigol wrth benderfynu a oes angen darparu cyfieithiad Cymraeg cyflawn o gyhoeddiad, ynteu a fyddai cyfieithiad rhannol (e.e. o grynoded gweithredol) yn fwy priodol. Byddwn yn darparu canllawiau ar gyfer staff DECC er mwyn galluogi iddynt wneud penderfyniadau gwrthrychol o ran pryd y dylid cyhoeddi deunyddiau yn Gymraeg/yn ddwyieithog er mwyn sicrhau bod eu penderfyniadau'n deg ac yn gyson.
33. Lle byddwn yn cynhyrchu deunyddiau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, ein harfer safonol fydd cyhoeddi a dosbarthu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd a byddant yn gyffelyb. O bryd i'w gilydd, a lle bo hynny'n briodol, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos mewn un ddogfen. Ymhlith y rhesymau dros beidio â chynnwys y ddau fersiwn mewn un ddogfen mae'r ffaith y byddai'n rhy hir neu'n rhy swmpus neu am resymau ymarferol neu amgylcheddol. Bydd pob fersiwn yn nodi'r glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall, a bydd y ddau fersiwn yr un mor hawdd cael gafael arnynt.
34. Os nad yw'r ddogfen ar gael am ddim, ni fydd pris ddogfen ddwyieithog yn fwy na

dogfen uniaith – a chodir yr un pris am fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

35. Bydd hyn yn berthnasol hefyd i ddeunyddiau sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu trwy gyfryngau eraill.

Gwefannau

36. Bydd gwefan DECC ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Wrth ddylunio gwefannau newid, neu ailddatblygu ein gwefan bresennol, byddwn yn cymryd canllawiau dylunio gwefannau Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ystyriaeth. Nid ydym wedi defnyddio achrediad meddalwedd dwyieithog y Bwrdd yn y gorffennol e.e. ar gyfer gwefan gyfredol DECC. Adeiladwyd gwefan allanol gyfredol DECC ar blatfform sy'n gallu darparu ar gyfer deunyddiau dwyieithog, a gallwn fanteisio ar hynny os teimlir bod angen gwneud hynny yn y dyfodol.
37. Byddwn yn cymryd cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd i ystyriaeth wrth gaffael neu ddatblygu systemau TG newydd ar gyfer y cyhoedd yn y dyfodol.
38. Lle byddwn yn rhyddhau cyhoeddiadau yn Gymraeg a Saesneg, byddwn yn eu cyhoeddi ar wefan DECC, gan gynyddu'r cynnwys sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn raddol. Wrth benderfynu a ddylid rhyddhau cynnwys ar y we yn Gymraeg, byddwn yn dilyn yr un canllawiau ag a wnawn ar gyfer cyhoeddiadau.

Ffurflenni a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig

39. Ein harfer safonol fydd sicrhau bod yr holl ffurflenni ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig, ar gael yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni ymateb i ymgynghoriadau sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Os oes angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
40. Byddwn yn anfon ffurflenni dwyieithog at y cyhoedd lle bo hynny'n briodol, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y bobl sy'n derbyn y wybodaeth ei chael yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg. Lle bo sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Ein hunaniaeth gorfforaethol

41. Byddwn yn cynhyrchu papur pennawd Cymraeg ar gyfer gohebiaeth Gymraeg ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.
42. Lle cynhyrchir dogfennau yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, bydd enw DECC: Department of Energy and Climate Change yn aros ar y ddogfen er mwyn sicrhau hunaniaeth brand yr Adran, ond byddwn yn cynnwys disgrifydd Cymraeg i gyd-fynd â'r enw.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff

43. Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff

a osodir mewn papurau newydd cyfrwng Saesneg (neu gyfryngau tebyg) sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru'n bennaf neu yn unig yn ddwyieithog, neu yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn ymddangos yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg.

44. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran eu ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd – dim ots a ydynt wedi cael eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
45. Yn y cyfryngau cyfrwng Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.
46. Gellir cyhoeddi hysbysebion recriwtio a osodir mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) cyfrwng Saesneg sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gall yr hysbyseb fod yn hollol ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.
47. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysebion recriwtio staff a osodir yn unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau

48. Caiff datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg lle bo'r amserlenni'n caniatáu ac os yw'r mater o dan sylw yn effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru.

Rhoi'r cynllun ar waith

Staffio a hyfforddiant iaith

49. Nid oes gan DECC unrhyw swyddfeydd yng Nghymru, a hyd hyn yn hyn, nid oes neb o staff DECC wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Byddwn yn ystyried cynnal ac ariannu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg ar gyfer staff sy'n dod i gysylltiad sylweddol a chyson â'r cyhoedd yng Nghymru yn rhan o'u dyletswyddau, ac sydd am ddysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg. Byddwn yn caniatáu i'r staff fynyachu cyrsiau yn ystod oriau gwaith pan fo angen.

Recriwtio staff

50. Byddwn yn ystyried a ddylai'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl fod yn fedr dymunol neu hanfodol ar gyfer unrhyw swyddi sy'n dod i gysylltiad sylweddol a chyson â'r cyhoedd yng Nghymru – ac os felly, caiff hyn ei nodi yn y rhestr medrau a'r hysbyseb ar gyfer y swydd. Lle bo'r swydd yn gofyn am gysylltiadau agos â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn gofyn am wybodaeth am fedrau'r ymgeiswyr yn yr iaith Gymraeg.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

51. Wrth ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, byddwn yn darparu ar gyfer yr angen am gyflwyno gwybodaeth a

gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

52. Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn cymryd safonau TGCh Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ystyriaeth.

Gweithio mewn partneriaeth

53. Pan fyddwn yn arwain partneriaeth yn strategol ac yn ariannol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau o'r bartneriaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn gyson â'r cynllun hwn, ac eithrio lle bo gan y partner sy'n cyflwyno'r gwasanaeth Gynllun Iaith Gymraeg. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd ein gwasanaeth yn gyson â chynllun y partner o dan sylw.
54. Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth dan arweiniad sefydliad arall, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn gyson â'r cynllun hwn, a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio hefyd, oni bai bod gan y sefydliad sy'n arwain y bartneriaeth Gynllun Iaith Gymraeg. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn annog y bartneriaeth i gydymffurfio â chynllun y sefydliad sy'n arwain y bartneriaeth.
55. Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Lle byddwn yn gweithredu mewn consortiwm â sefydliadau eraill sydd â Chynlluniau Iaith Gymraeg, byddwn yn annog y consortiwm i benderfynu cadw at un cynllun ar gyfer ei holl waith.
56. Mae'r uchod yn cyfeirio at bartneriaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn unig.

Trefniadau mewnol

57. Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lwyr ein sefydliad.
58. Y rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith unigol. Bydd aelod uwch o Dîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid DECC yn cydlynu'r gwaith o gyflwyno, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
59. Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu manwl (gweler Atodiad A) a fydd yn dangos sut y byddwn yn rhoi'r cynllun ar waith. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad pan ddaw'r cynllun i rym.
60. Byddwn yn hysbysebu'r cynllun ymysg ein staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael i'w archebu ar gais trwy Linell Archebu Cyhoeddiadau DECC. Caiff ei hysbysebu hefyd yn yr Adroddiad Adrannol a chaiff datganiad i'r wasg ei gyhoeddi i dynnu sylw'r cyfryngau at y cynllun hwn.
61. Caiff y canllawiau manwl y mae ein staff yn eu defnyddio eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn.
62. Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi ar gyfer y staff y bydd y diwygiadau i'r cynllun yn effeithio'n sylweddol ar eu gwaith. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am y

cynllun ac yn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith pob dydd.

63. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd cymwysedig bob tro i'n helpu ni i gyflawni'r cynllun hwn.
64. Caiff unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru na drafodir yn benodol yn y cynllun hwn ei gyflawni mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a bennir yn y cynllun hwn.

Monitro

65. Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a bennir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig. Pob mis Mehefin, byddwn yn anfon adroddiadau monitro ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gan amlinellu cynnydd wrth gyflawni'r cynllun yn erbyn y targedau a bennir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig. Bydd DECC yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad canlynol a bennwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac yn adrodd arnynt:
- Y nifer a'r % o staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth staff
 - Nifer y systemau TG a gafodd eu hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd
 - Nifer y cynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn sgil asesiadau gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd
 - Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion hynny.
66. Lle bo modd, bydd DECC yn darparu enghreifftiau o ddogfennau polisi, deddfwriaeth neu fentrau newydd sy'n prif-ffrydio'r iaith Gymraeg.

Adolygu a diwygio'r cynllun

67. Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn cyn pen pedair blynedd ar ôl iddo ddod i rym.
68. Gellir adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn ar unrhyw adeg yn sgil newidiadau i'n swyddogaethau neu i'r amgylchiadau yr ydym yn cyflawni'r swyddogaethau hynny odanynt, neu am unrhyw reswm arall. Byddwn yn anfon copi drafft o unrhyw ddiwygiadau at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun hwn heb gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

69. Dylid cyfeirio cwynion mewn perthynas â'r cynllun hwn, neu unrhyw awgrymiadau ar ffyrdd o'i wella, at yr aelod uwch o staff sy'n gyfrifol am y cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

Y Tîm Gohebiaeth
3, Whitehall Place
Llundain SW1A 2HH

Ffôn: 0300 060 4000

Neu trwy e-bost i: correspondence@decc.gsi.gov.uk

70. Bydd Uned Gohebiaeth DECC yn nodi cwynion mewn perthynas â diffyg darpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn cadw cofnod ohonynt, yn rhan o gynllun safonol DECC ar gyfer cwynion.
71. Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd er mwyn datrys unrhyw gwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a wneir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Atodiad A

Y CYNLLUN GWEITHREDU

Y prif dargedau wrth roi Cynllun Iaith Gymraeg DECC ar waith

| | |
|---|---|
| <p>1. Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau</p> <p>Byddwn yn cynnwys y polisiâu, y mentrau a'r gwasanaethau ar gyfer sicrhau cysondeb â'r cynllun hwn mewn canllawiau cyffredinol.</p> <p>Byddwn yn cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg yn yr Adroddiad Adrannol.</p> <p>Bydd deddfwriaeth DECC yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n briodol.</p> | Lansio'r Cynllun |
| <p>2. Gohebiaeth</p> <p>Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am ein hymrwymadau o ran ymdrin â gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg, a chanllawiau ar sut i gysylltu â gwasanaeth cyfieithu/cyfieithu ar y pryd cymwysedig mewn canllawiau cyffredinol ac yn y canllawiau ar gyfer ein staff mewnol. Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl hynny sydd am ohebu â ni yn Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn caffael papur pennawd Cymraeg i'w ddefnyddio wrth ohebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.</p> | Lansio'r Cynllun |
| <p>3. Cyhoeddiadau</p> <p>Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am ein hymrwymadau mewn perthynas â chyhoeddiadau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ar led yng Nghymru neu i ardal benodol yng Nghymru mewn canllawiau cyffredinol ac yn y canllawiau ar gyfer ein staff mewnol er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau'n deg ac yn gyson.</p> | Lansio'r Cynllun |
| <p>4. Hyfforddiant iaith</p> <p>Byddwn yn monitro'r galw am hyfforddiant ymysg ein staff sy'n dod i gysylltiad sylweddol a chyson â'r cyhoedd yng Nghymru yn rhinwedd eu dyletswyddau.</p> <p>Byddwn yn monitro gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi sy'n gofyn am gysylltiad agos â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p> | Yn parhau – gan gychwyn wrth Lansio'r Cynllun |
| <p>5. Gweithio mewn partneriaeth</p> <p>Byddwn yn annog cyrff cyhoeddus anadrannol i fabwysiadu egwyddorion y Cynllun ac yn gwneud gwaith monitro yn hynny o beth. Byddwn yn cynnwys canllawiau cyffredinol a chanllawiau i'n staff mewnol ar ein hymrwymadau wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill.</p> | Lansio'r Cynllun |
| <p>6. Gwaith hyrwyddo mewnol</p> <p>Byddwn yn darparu canllawiau mewnol ar gyfer staff DECC am yr ymrwymadau a wneir yn y Cynllun a sut i fynd ati i roi egwyddorion y Cynllun ar waith.</p> <p>Byddwn yn creu tudalennau Mewnwyd DECC ar yr iaith Gymraeg ac yn eu diweddarau.</p> | Lansio'r Cynllun |

| | |
|--|--|
| <p>Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun ar safle mewnwyd DECC ac yn hysbysebu'r Cynllun yn fewnol, gan ofyn i staff gydymffurfio â'r cynllun mewn perthynas ag unrhyw weithgarwch yng Nghymru. Byddwn yn diweddarau ein canllawiau am ohebiaeth a chyhoeddiadau ar y fewnwyd er mwyn cynnwys cyfarwyddiadau am ohebiaeth a chyhoeddiadau yn Gymraeg.</p> | |
| <p>7. Monitro Rydym wedi cytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg y byddwn yn monitro'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn adrodd arnynt mewn perthynas â'r pethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y nifer a'r % o staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith • Nifer y systemau TG sydd wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio cynllun meddalwedd dwyieithog y Bwrdd a'r cynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn sgil yr asesiadau hyn • Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth yn yr iaith Gymraeg a'r camau a gymerwyd i'w datrys. | <p>Yn parhau – gan gychwyn ym mis Mawrth 2013 ac yn flynyddol wedyn.</p> |
| <p>8. Y wefan Lle byddwn yn rhyddhau cyhoeddiadau yn Gymraeg a Saesneg, byddwn yn eu cyhoeddi ar wefan DECC. Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu ein gwefan gyfredol, byddwn yn cymryd canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau i ystyriaeth.</p> | <p>Yn parhau – gan gychwyn wrth Lansio'r Cynllun</p> |
| <p>9. Cyfarfodydd cyhoeddus Byddwn yn cynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru.</p> | <p>Yn parhau – gan gychwyn wrth Lansio'r Cynllun</p> |
| <p>10. Chyhoeddusrwydd a hysbysebu Wrth gynllunio ymgyrch yng Nghymru, byddwn yn sicrhau ymwybyddiaeth bod angen darparu amser ar gyfer datblygu deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunyddiau hysbysebu yn Gymraeg yr un pryd ar gam cynnar yn y broses. Gallai hyn gynnwys trefnu llinellau ffôn neu hysbysebion ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru ar y teledu, y radio neu trwy gyfryngau eraill.</p> | <p>O gamau cynllunio cyntaf ymgyrch.</p> |

Department of Energy & Climate Change
3 Whitehall Place
London SW1A 2AW
www.decc.gov.uk

URN 12D/062